WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Blwyddyn Archwilio 2005/2006

Hydref 2006

Awduron: Anthony Barrett a Matthew Edwards Cyf: 732A2006

# Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Fy mwriad yw cyflwyno adroddiad archwilydd diamod ar y Datganiadau Ariannol.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Nid oes unrhyw bryderon o ran yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol | 6 |
| Nid oes unrhyw addasiadau disgwyliedig i adroddiad safonol yr archwilydd | 6 |
| Ceir camddatganiadau nas cywirwyd | 6 |
| Ni nododd yr archwiliad unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaeth fewnol | 7 |
| Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen cyflwyno adroddiad i chi arnynt fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill | 8 |
| Nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt | 8 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol | 9 |
| Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiadau ariannol drafft | 13 |
| Adroddiad archwilydd annibynnol i aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 14 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:

- Mewn perthynas ag archwiliad, o dan y ddeddfwriaeth alluogi berthnasol a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, ac yng nghyd-destun y 'Datganiad o Gyfrifoldebau', a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Mewn perthynas ag arolygiad, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir adroddiadau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr penodedig, ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion yn cynnwys y sawl a ddynodwyd yn swyddogion cyfrifyddu neu'n swyddogion atebol. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff a enwir yn unig, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilwyr a benodwyd yn atebol i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

## Crynodeb

1. Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n dangos darlun teg o'i sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2006 a'i incwm a'i wariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Rwy'n gyfrifol am gynnal archwiliad a chyflwyno adroddiad ar ba un a yw'r datganiadau ariannol, yn fy marn i, yn dangos darlun teg o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Cyflwynodd yr Awdurdod Tân ddatganiadau ariannol drafft i mi ar 19 Mehefin 2006, ac rwyf bellach wedi cwblhau'r archwiliad o'r datganiadau hynny i raddau helaeth. Nid yw'r archwiliad yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol yn dangos darlun teg o'ch sefyllfa ariannol, na sicrwydd eu bod yn gywir ym mhob agwedd, ond yn hytrach, mabwysiedir cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad o'r cyfrifon, rydym yn ceisio nodi gwallau perthnasol, (hy, y gwallau hynny a allai gamarwain darllenwr) yn eich datganiadau ariannol.
3. Gan fod yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion allweddol sy'n codi y mae'n rhaid eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA260), cyn rhoi barn ar y datganiadau ariannol hynny. Cytunir ar faterion manylach sy'n codi ac argymhellion gyda swyddogion.
4. Mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â'r materion canlynol cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol:
   - cydberthnasau a allai ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
   - gwybodaeth cynllunio archwiliad;
   - canfyddiadau'r archwiliad, yn cynnwys safbwyntiau'r archwilydd ar yr agweddau ansoddol ar waith cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau'r endid.
5. Cyflwynwyd adroddiad i chi ar y ddau fater cyntaf yn ein Strategaeth Archwilio. Paratowyd yr adroddiad hwn i gyflawni ein dyletswyddau o ran y trydydd pwynt. Mae canfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:
   - nid oes unrhyw bryderon o ran yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol;
   - nid oes unrhyw addasiadau disgwyliedig i adroddiad safonol yr archwilydd;
   - ceir camddatganiadau nas cywirwyd;
   - ni nododd yr archwiliad unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaeth fewnol;
   - nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen cyflwyno adroddiad i chi arnynt fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill;
   - nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt.

6. Bwriadaf gyhoeddi adroddiad archwilydd diamod ar y Datganiadau Ariannol, pan fydd y Bwrdd wedi ymateb i'n Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol (Atodiad 1).

## Nid oes unrhyw bryderon o ran yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch adroddiadau ariannol

7. Yn ystod yr archwiliad, ystyrir yr agweddau ansoddol ar y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol, gan gynnwys eitemau a gaiff effaith sylweddol ar berthnasedd, dibynadwyedd, cymaroldeb a natur ddealladwy y wybodaeth a ddarperir gan y datganiadau ariannol.

> **Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**
> **Dim materion yn codi.**
> Nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw yr wyf yn dymuno tynnu eich sylw atynt.

## Nid oes unrhyw addasiadau disgwyliedig i adroddiad safonol yr archwilydd

8. Cyflwynaf adroddiad ar unrhyw addasiadau arfaethedig i adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr addasiadau a'ch bod yn cael cyfle i roi rhagor o wybodaeth ac esboniadau mewn perthynas â'r mater(ion) sy'n achosi'r addasiad. Mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau ar y canlynol:
   - a yw'r datganiadau yn rhoi darlun teg o'r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2006, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
   - a yw'r datganiad ar reolaeth fewnol yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth o drefniadau'r Awdurdod Tân.

> **Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**
> **Dim addasiadau i adroddiad yr archwilydd.**
> Ar sail ein gwaith archwilio, ni nodwyd unrhyw faterion a fyddai'n gofyn am unrhyw addasiad i'r farn archwilio. Amgaeir y farn archwilio safonol (Atodiad 3).

## Ceir camddatganiadau nas cywirwyd

9. Cyflwynaf adroddiad i chi ar yr holl gamddatganiadau nas cywirwyd, heblaw mân gamddatganiadau amlwg (diffinnir mân gamddatganiadau fel rhai sy'n hollol ddibwys, yn unigol neu gyda'i gilydd, naill yn feintiol ac/neu'n ansoddol). Ar sail ein methodoleg safonol, cyfrifwyd terfynau'r mân gamddatganiadau ar gyfer yr Awdurdod Tân fel a ganlyn:
   - gwariant gros £15,000;
   - asedau gros (llai cyfalaf gweithio) £12,000.

**Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**

**Camddatganiadau nas cywirwyd.**

Nodwyd nifer o wallau nad ydynt yn fân wallau yn ystod yr archwiliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaethpwyd diwygiad priodol gan reolwyr. Fodd bynnag, nodais wallau nad ydynt yn fân wallau nas cywirwyd mewn perthynas â darpariaethau yn y datganiadau ariannol, er iddynt gael eu tynnu at sylw rheolwyr. Felly gofynnaf yn swyddogol i'r eitemau hyn gael eu cywiro yn y datganiadau ariannol:

- Mae Datganiad CIPFA o'r Arfer a Argymhellir, sy'n cydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol 12, yn ei gwneud yn ofynnol i wneud darpariaethau pan fydd gan awdurdod ymrwymiad presennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.
- Mae Nodyn 9 i'r Fantolen yn ei gwneud yn glir mai ar gyfer gwariant y mae'n sicr neu'n debygol o fynd iddo yn y dyfodol, yn hytrach na'r gorffennol y mae'r darpariaethau a gedwir gan yr Awdurdod. Er nad yw'r symiau a ganlyn a gedwir fel darpariaethau yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir, derbynnir bod yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn ddoeth ac yn dryloyw:
  - Darpariaeth Cyllideb 2006/2007 £250,000;
  - Darpariaeth Rôl yn ôl Gradd £100,000;
  - Darpariaeth Tâl Cyfartal £ 90,000;
  - Darpariaeth Rheoli £ 40,000; a
  - Darpariaeth Stadau £ 35,000.

  Mae'n glir bod symiau a neilltuir yn cael eu defnyddio o fewn cyfnod rhesymol yn gyffredinol. Mae'r awdurdodau cyfansoddol hefyd yn ymwybodol o'r trefniadau ac yn fodlon arnynt, ac mae'r driniaeth yn gyson â'r driniaeth a gymhwyswyd gan yr Awdurdod Tân ers 1996.

Lle rydych yn fodlon ar y safbwynt a arddelwyd gan reolwyr mewn perthynas â'r materion hyn, mae ISA 260 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gael esboniad ysgrifenedig gennych yn nodi'r rhesymau dros beidio â chywiro'r eitemau hyn.

## Ni nododd yr archwiliad unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaeth fewnol

10. Diffinnir gwendid perthnasol mewn rheolaeth fewnol gan ISA 260 fel 'diffyg o ran cynllun neu weithrediad a allai effeithio'n andwyol ar allu'r endid i gofnodi, prosesu, crynhoi a chyflwyno adroddiadau ar ddata ariannol a data perthnasol arall gan arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol'.
11. Fodd bynnag, nid wyf fel arfer yn cyflwyno adroddiad i chi ar wendid perthnasol yr ydych yn ymwybodol ohono, ac y cymerwyd camau cywirol priodol i ymdrin ag ef, yn ein barn ni, oni bai bod y gwendid yn arwydd o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol a bod risg y gallai gwendidau perthnasol eraill godi.
12. Dylech fod yn ymwybodol nad wyf yn darparu datganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau a allai fodoli yn y rheolaethau mewnol nac o’r holl welliannau y gellid eu gwneud, ond fy mod wedi mynd i'r afael â'r materion hynny sydd wedi dod i'n sylw o ganlyniad i'r gweithdrefnau archwilio a gynhaliwyd yn unig.

**Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**

**Ni nodwyd unrhyw wendidau.**

Ni nododd yr archwiliad unrhyw wendidau mewn rheolaeth fewnol na gwallau a gywirwyd sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau llywodraethu ehangach y mae angen i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt.

## Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen cyflwyno adroddiad i chi arnynt fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill

13. Mae safonau archwilio eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfathrebu â chi mewn amgylchiadau penodol eraill gan gynnwys lle:
    - rydym yn amau neu'n canfod twyll, hyd yn oed os nad yw'r effaith bosibl yn berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol;
    - ceir anghysondeb rhwng datganiadau ariannol yr Awdurdod Tân a gwybodaeth arall mewn dogfennau sy'n cynnwys y datganiadau ariannol.

**Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**

**Dim materion yn codi.**

Nid wyf wedi nodi materion o'r fath yn ystod ein harchwiliad.

## Nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt

**Sefyllfa bresennol yr Awdurdod Tân**

**Dim materion yn codi.**

Nid oes unrhyw faterion eraill yr wyf yn dymuno tynnu eich sylw atynt.

Atodiad 1

# Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol

Mr Anthony Barrett
Partner Ymgysylltu
Swyddfa Archwilio Cymru
Uned 4, Evolution
Lakeside Business Village
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3XP

23 Hydref 2006

Annwyl Anthony

**Sylwadau ynghylch Datganiadau Ariannol 2005/2006**

Paratoir y llythyr sylwadau hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006 i bwrpas mynegi barn ynghylch p'un ai a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn deg, ym mhob agwedd o bwys, ar 31 Mawrth 2006 a chanlyniadau ei waith a'i lif ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2006 a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir Llywodraeth Leol (yr LG SORP).

**Sylwadau gan Reolwyr**

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r holl drafodion a wnaed gan yr Awdurdod Tân wedi'u hadlewyrchu'n briodol a'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifon.

Nid oes unrhyw brosiectau cyllideb ar y cyd gan unrhyw gytundebau partneriaeth a wnaed dan adran 31 Deddf Iechyd, cymdeithion, cyd fentrau neu gyd drefniadau heblaw am y rhai a ddatgelwyd yn y datganiadau cyfrifon a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Awdurdod Tân wedi cydymffurfio â'r holl amodau a orfodir gan sefydliadau perthnasol sy'n talu grantiau a gall ddisgwyl yn rhesymol dderbyn y symiau o grantiau a gynhwysir yn y cyfrifon.

Mae'r Awdurdod Tân wedi cydymffurfio â holl agweddau cytundebau contract a fyddai'n gofyn am addasu'r datganiadau ariannol, neu eu datgelu ynddynt.

Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau materol, ac nid oes hepgoriadau ac eithrio'r rhai a amlinellir yn y paragraff isod.

Mae'r holl lyfrau cyfrifon a'r dogfennau ategol a holl gofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tan wedi'u cyflwyno i chi.

Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw gynlluniau na bwriadau a allai beri unrhyw newid o bwys i werth ar bapur neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a adlewyrchwyd yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau mesur, gan gynnwys y tybiaethau cysylltiedig, a ddefnyddiwyd i benderfynu ar werthoedd teg, yn briodol ac maent wedi'u defnyddio'n gyson. Mae datguddiadau ynghylch gwerthoedd teg yn gyflawn ac yn briodol.

Canfu'r Archwilydd nifer o gamddatganiadau yn y Datganiad Cyfrifon yn ymwneud â darpariaethau nad ydynt wedi cael eu cywiro. Neilltuwyd y symiau canlynol yn dilyn y tanwariant yn 2005-2006 ac maent wedi cael eu diffinio fel ddarpariaethau lle nad ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â'r diffiniad a amlinellir yn Safon Adroddiad Ariannol 12 a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SoRP) CIPFA. Ers 1996 mae'r Awdurdod Tân wedi delio â'r anallu pendant i gynnal cronfeydd wrth gefn mewn modd pragmatig drwy ddiffinio unrhyw gronfeydd wrth gefn (yn ôl diffiniad SORP) yn ddarpariaethau ac eglurwyd y farn hon i'r archwilydd allanol wrth iddynt archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol. Ceir manylion pellach ar dudalen 5 y Datganiad Cyfrifon. Yn ein barn ni, byddai trin y symiau hyn mewn ffordd arall yn gamarweiniol ac rydym yn credu bod ein dull datgelu cyfredol yn dryloyw i bawb sy'n gysylltiedig. Cafodd y darpariaethau a ganlyn eu cam-ddatgan :-

| | |
|---|---|
| Darpariaeth Cyllideb 2006-07 | £335,518 |
| Darpariaeth Rôl yn ôl Gradd | £100,000 |
| Darpariaeth Tâl Cyfartal | £90,000 |
| Darpariaeth Rheoli | £40,000 |
| Darpariaeth Stadau | £35,000 |

**ASEDAU**

Roedd yr holl asedau ar y fantolen yn bod ar ddyddiad y fantolen ac yn eiddo i Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ac yn rhydd o unrhyw hawlrwym, llyffethair neu dâl, heblaw am yr hyn a ddatgelwyd yn y cyfrifon. Mae'r fantolen yn cynnwys yr holl asedau diriaethol sy'n eiddo i Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Caiff asedau priodol dros £100 eu cyfrif yn gyfalaf. Adbrisir adeiladau bob pum mlynedd drwy ddefnyddio 'gwerth marchnad agored' ar gyfer swyddfeydd a 'chostau dibrisio adeilad' yr orsaf dân. Caiff holl adeiladau'r Awdurdod Tân eu dibrisio ar sail oes defnydd a amcangyfrifwyd, a phennir tâl am ddibrisio. Caiff asedau eraill eu hadnabod ar gost hanesyddol a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Yn ystod y defnydd arferol o'r asedau hyn gan yr Awdurdod Tân disgwylir i'r asedau presennol eraill yn y fantolen gynhyrchu o leiaf y symiau a nodir. Darparwyd yn ddigonol yn erbyn yr holl symiau sy'n ddyledus i Awdurdod Tân Gogledd Cymru y gwyddom, neu fydd o bosibl, yn anadferadwy.
Nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol nac anffurfiol i unioni'r balans ar gyfer unrhyw un o'n cyfrifon ariannol a buddsoddiadau.

**RHWYMEDIGAETHAU**

Mae'r holl rwymedigaethau, gwirioneddol ac wrth gefn, wedi'u cofnodi a'u nodi'n briodol yn ogystal â phob gwarant a roddwyd i drydydd partïon.

Nid oes unrhyw ymgyfreithiad dan ystyriaeth a allai beri colled sylweddol i'r Awdurdod Tân, ac sydd heb eu datgelu yn y datganiadau ariannol, naill ai fel rhwymedigaethau presennol neu rai wrth gefn.
Mae'r holl ymrwymiadau dan brydlesau ariannol neu gontractau hurbrynu wedi'u datgelu yn y cyfrifon.
Mae'r holl fuddion heb eu hariannu (fel blynyddoedd ychwanegol yn ôl disgresiwn) wedi'u hystyried wrth baratoi ffigurau FRS17 a gynhwysir yn y datganiadau ariannol.

### Canlyniadau

Nid oedd y canlyniadau am y flwyddyn wedi'u heffeithio'n sylweddol gan drafodion na wneir gan amlaf gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, nac amgylchiadau o natur arbennig neu nad yw'n ailddigwydd.

### Rheoli Mewnol

Rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu'r system o reoli mewnol er mwyn atal a chanfod camgymeriadau.
Ni fu unrhyw:

- afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr sydd â rolau o bwys yn y system o reoli cyfrifon mewnol;
- afreoleidd-dra yn ymwneud â gweithwyr eraill a allai gael effaith o bwys ar ddatganiadau ariannol; a
- chyfathrebu gan asiantaethau rheoleiddio ynghylch diffyg cydymffurfio â, neu ddiffygion o ran arferion adrodd ariannol a allai gael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol.

### Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Nid fu unrhyw newidiadau o bwys ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar rwymedigaethau ac ymrwymiadau, ac nid oes unrhyw ddigwyddiadau neu drafodion wedi digwydd, er iddynt gael eu heithrio'n briodol o'r datganiadau ariannol, sydd o'r fath bwys, fel y dylid bod wedi eu dwyn i sylw'r archwilydd.

### Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan reolwyr, uchod, wedi'u trafod â ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gyflwyno'r datganiadau ariannol yn deg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rydym yn cydnabod ein cyd gyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau ariannol, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ar 19 Mehefin 2006.

Rydym wedi datgelu wrthych yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio y gwyddir amdanynt, neu achosion posibl, â deddfau a rheoliadau y dylid bod wedi ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r

datganiadau ariannol.  Tynnwn eich sylw'n benodol at y camddatganiadau ar ddarpariaethau a amlinellwyd uchod a yn thudalen 5 y Datganiad Cyfrifon.

Nid oes unrhyw drafodion eraill o bwys gyda phartïon cysylltiedig (fel y diffinnir gan FRS 8 a LG SORP), heblaw am y rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio a gweithredu'r system o reoli mewnol er mwyn atal a chanfod twyll ac rydym wedi datgelu canlyniadau ein hasesiad o'r risg.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, y gwneir y sylwadau uchod ar sail ymholiadau ynghylch rheoli ac ar sail holi staff â gwybodaeth berthnasol a phrofiad (a lle bo'n briodol, yn sgil archwilio dogfennau ategol) sy'n ddigonol i'n sicrhau y gallwn gyflwyno pob un o'r sylwadau uchod yn briodol i chi.

Arwyddwyd gan

| | |
|---|---|
| Trysorydd | Cadeirydd |
| Dyddiad | Dyddiad |
| 23 Hydref 2006 | 23 Hydref 2006 |

## Atodiad 2

# Crynodeb o'r cywiriadau i'r datganiadau ariannol drafft

| Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Gorddatganwyd y 'Gwerth Llyfr Gros fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' ar gyfer Tir ac Adeiladau a ddatganwyd yn Nodyn 1 i 'Asedau Sefydlog' y Fantolen o £909,000. Hefyd gorddatganwyd y 'Dibrisiant Cronedig fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' ar gyfer Tir ac Adeiladau o swm cyfatebol. | Camddatganwyd y 'Gwerth Llyfr Gros fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' a'r 'Dibrisiant Cronedig fel yr oedd ar 1 Ebrill 2005' gan nad oeddent yn cytuno â balansau a gariwyd ymlaen ac a gynhwyswyd yn natganiadau ariannol ardystiedig 2004/2005. Nid oedd y diwygiadau yn effeithio ar unrhyw ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Nid oedd Nodyn 1 yn datgan y swm cario net ar ddechrau'r cyfnod ariannol (1 Ebrill 2005) ar gyfer pob dosbarth o asedau sefydlog diriaethol. | Nid oedd eithrio'r swm cario net ar ddechrau'r cyfnod ariannol yn cydymffurfio â pharagraff 4.30 o'r 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005: Datganiad o Arfer a Argymhellir |
| Adolygwyd y tendrau dŵr a ddatgelwyd yn Nodyn 1 i'r Fantolen 'Ymrwymiadau Cyfalaf 2006/007 ymlaen' o £1,030,000 i £1,256,000. Mae hyn yn cynyddu'r ymrwymiadau cyfalaf o £1,349,000 i £1,575,000. | Cafodd y datgeliad ei adolygu i adlewyrchu archebion ychwanegol am dendrau dŵr, a gafodd eu heithrio mewn camgymeriad. Ni chafodd y newid hwn unrhyw effaith ar unrhyw ddatgeliadau eraill yn y cyfrifon. |
| Roedd Nodyn 9 i'r Fantolen 'Darpariaethau' yn cynnwys 'Darpariaeth Archwilio' o £45,000. Symudwyd y ddarpariaeth wedi hynny, ac fe'i cynhwyswyd yn 'Darpariaeth Cyllideb 2006/2007'. | Nid oedd yn bosibl cadarnhau'r 'Ddarpariaeth Archwilio'. Nid yw'r addasiad hwn yn cael unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Roedd Nodyn 9 i'r Fantolen 'Ddarpariaethau' yn cynnwys 'Darpariaeth Lifrau' o £83,000. Mae'r fantolen hon yn ymwneud â phrynu offer diogelu personol yn y dyfodol a gynhwyswyd yn rhaglen gyfalaf 2005/2006. Adolygwyd y balans wedi hynny o ddarpariaeth i gronfa gyfalaf. | Adolygwyd y datgeliad i adlewyrchu gwir natur y balans. Ymgorfforwyd addasiadau priodol yn y Fantolen. |
| Roedd 'Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd' a adlewyrchir yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â thrwyddedau hydrantau tân gyda chost o £19,000. Diwygiwyd y Cyfrif wedi hynny gyda'r gost wedi'i hadlewyrchu yn yr adran Diogelwch Tân Cymunedol. | Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â gofynion Atodiad E i God Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2005.<br>Nid yw'r addasiad hwn yn cael unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Tanddatganwyd y 'Costau Nas Dosbarthwyd' a adlewyrchwyd yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol o £125,000 oherwydd peidio â chynnwys costau gwasanaeth blaenorol. Diwygiwyd y 'Costau Nas Dosbarthwyd' wedi hynny i gynnwys costau gwasanaeth blaenorol. | Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â gofynion Atodiad E i God Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2005.<br>Nid yw'r diwygiad hwn yn cael unrhyw effaith ar ddatganiadau eraill yn y cyfrifon. |
| Hepgorwyd 'Enillion Gwasanaeth Blaenorol' o £225,000 ar gyfer Cronfa Bensiwn Clwyd o'r tabl i Nodyn 4(iii) i 'Symudiadau ar y Gronfa Bensiwn' i'r Cyfrif Refeniw Cyfunol. Diwygiwyd y Tabl wedi hynny i gynnwys yr enillion gwasanaeth blaenorol. | Nid oedd y driniaeth yn cydymffurfio â pharagraff F3 o'r 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005:<br>Datganiad o Arfer a Argymhellir |

Atodiad 3

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2006 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Refeniw, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad o Holl Symudiadau'r Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y datganiad cyfrifon.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac nid at unrhyw ddiben arall, fel y nodir ym mharagraff 42 o Ddatganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr Penodedig, ac Arolygwyr, a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir (2005) a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru .

## Priod gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid ac archwilwyr

Caiff cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid am baratoi'r Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005 eu nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rhoddaf fy marn o ran pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005.

Adolygaf a yw'r datganiad am reolaeth fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau CIPFA 'Y Datganiad am Reolaeth Fewnol Mewn Llywodraeth Leol: Bodloni Gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003'. Nodaf os nad yw'n cydymffurfio ag arferion cywir a nodir gan CIPFA neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r cyfrifon. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried p'un a yw'r datganiad am reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod Tân na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheolaeth.

Darllenaf wybodaeth arall a gyhoeddir gyda'r datganiadau cyfrifyddu, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y Rhagair Esboniadol. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan yr Awdurdod Tân wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a pha un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod Tân, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth lunio fy marn, bu i mi hefyd werthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2006 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2005.

### Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyflwynir fy nghasgliad diamod o ran a yw Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o'i adnoddau ar wahân yn y Llythyr Archwilio Blynyddol.

Anthony Barrett

Swyddfa Archwilio Cymru, Uned 4, Evolution

Lakeside Business Village

Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3XP

23 Hydref 2006

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk